# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Hydref 2018

Amser: 14.30 - 15.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5017

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Suzy Davies AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC (Cadeirydd dros dro)<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Agorodd y Clerc y cyfarfod a galwodd am enwebiadau i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

1.2 Enwebwyd Dai Lloyd AC gan Lee Waters AC ac fe'i hetholwyd yn Gadeirydd dros dro.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd dros dro yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniw AC a Dawn Bowden AC.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)258 - Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a'r Gorllewin wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

2.1.1 Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)257 - Rheoliadau Meysydd Tref a Phentref (Datganiadau Perchnogion Tir) (Cymru) 2018

3.1.1 Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a nododd yr adroddiad drafft, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru. Nid oedd y Pwyllgor yn fodlon ar lefel y manylder yn ymateb y Llywodraeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad pellach.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip - Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

4.1.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) - Adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a bydd yn ystyried fersiwn ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 15 Hydref.

## 7 Diweddariad ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor adran 116C

7.1 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes a Llywodraeth Cymru.